BIS | Department for Business Innovation & Skills

Symud ymlaen i sefydlu corff i fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda chod ymarfer cyflenwi nwyddau cartref (GSCOP)

Ymgynghoriad

CHWEFROR 2010

Eglurhad o'r cyd-destun ehangach ar gyfer yr ymgynghoriad a'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni

Ym mis Ebrill 2008 cyhoeddodd y Comisiwn Cystadleuaeth (CC) adroddiad terfynol ei ymchwiliad dwy flynedd i'r Farchnad Nwyddau Cartref. Yn yr ymchwiliad hwn, canfu'r CC fod arfer rhai adwerthwyr o drosglwyddo peryglon gormodol a chostau annisgwyl i'w cyflenwyr yn arwain at Effaith Anffafriol ar Gystadleuaeth dan delerau Deddf Menter 2002. Os fyddai'n parhau, gallai'r arfer arwain at ostyngiad mewn menter a buddsoddiad yn y gadwyn gyflenwi, ac arwain at golled i ddefnyddwyr.
http://www.competition-commission.org.uk/rep_pub/reports/2008/fulltext/538.pdf

Argymhellodd y CC becyn o atebion i wynebu'r Effaith Anffafriol ar Gystadleuaeth.

- 1) Cod ymarfer newydd, cryfach – Cod Ymarfer Cyflenwi Nwyddau Cartref (GSCOP) a sefydlwyd gan Orchymyn Ymchwiliad Marchnad y Farchnad Nwyddau Cartref (Arferion Cadwyn Gyflenwi) 2009 (y Gorchymyn);
- 2) Ombwdsmon Archfarchnadoedd i oruchwylio a gweithredu'r GSCOP, a chymodi anghytundebau sy'n codi oddi tano.

Ym mis Awst 2009, daeth ymgynghoriad y CC ar yr hyn i ben, a sefydlwyd y GSCOP gan ddefnyddio'r grymoedd dan y Ddeddf Menter. Hefyd argymhellodd y dylai'r Llywodraeth sefydlu Ombwdsmon GSCOP â'r grym i gosbi am dorri'r Cod.
http://www.competition-commission.org.uk/inquiries/ref2006/grocery/pdf/gscop_2_bis_letter.pdf

Roedd ymateb y Llywodraeth, a gyhoeddwyd ar 13 Ionawr 2010, yn derbyn yr angen am gorff i fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Cod. Mae'r papur ymgynghorol hwn yn gofyn am eich barn ar y ffordd y dylid sefydlu'r corff hwn, y grymoedd a fydd ganddo a phwy ddylai'r corff fod.

Cyhoeddwyd	5 Chwefror 2010
Ymateb erbyn	30 Ebrill 2010
Ymholiadau at	Steve Smith, Cyfarwyddiaeth Polisi Defnyddwyr a Chystadleuaeth, Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, Bae 414,1 Victoria Street, Llundain SW1H 0ET Rhif ffôn: 020 7 215 2776 Cyfeiriad ebost: steve.x.smith@bis.gsi.gov.uk

Mae'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol i adwerthwyr mawr o nwyddau cartref, â throsiant blynyddol o £1biliwn yn y DU, a'r busnesau sy'n cyflenwi adwerthwyr mawr â chynnyrch nwyddau cartref, naill ai yn uniongyrchol neu drwy ganolwyr. Mae'n bosibl hefyd bod diddordeb gan undebau llafur a mudiadau anllywodraethol eraill.

Llun ar y dudalen flaen gan Thomas Hawk http://www.flickr.com/photos/thomashawk/

Cynnwys

Rhagair gan Kevin Brennan AS 4
Crynodeb Gweithredol 6
Pennod 1. Cyflwyniad 14
Pennod 2. Yr argymhellion: Gweithgareddau'r corff 17
Pennod 3. Yr argymhellion: Pwy ddylai'r corff fod 22
Pennod 4. Yr argymhellion: Trefn gosbi 24
Pennod 5. Yr argymhellion: Cwmpas y corff 25
Pennod 6. Yr argymhellion: Ariannu'r corff 27
Pennod 7. Beth yw'r cam nesaf? 29
Atodiad A : Cod Ymarfer Ymgynghoriadau 30
Atodiad B: Rhestr o Unigolion/Mudiadau a holwyd 31
Atodiad C: Cysylltiadau perthnasol 32

Atodiad D: Asesiad Effaith Cam Ymgynghoriad (gweler y fersiwn Saesneg)

Rhagair gan Kevin Brennan AS

Archfarchnadoedd yw un o'r meysydd mwyaf deinamig o dwf adwerthu yn y DU, ac maent cyfrif am 86% o'n gwariant ar fwyd a nwyddau cartref. Mae pwysigrwydd y sector nwyddau cartref yn allweddol i economi'r DU o ran buddsoddiad, arloesedd a swyddi. Adwerthu sy'n cyfrif am tua 10% o'r GDP, gyda nwyddau cartref yn 50% o hynny, gan ddarparu tua 1.5 miliwn o swyddi.

Mae adwerthwyr nwyddau cartref yn gwneud gwaith da ar y cyfan. Mae nifer cynyddol o ddefnyddwyr yn eu defnyddio yn sgil eu cyfleustra, a'r dewis a'r ystod sy'n cael ei gynnig ganddynt. Mae defnyddwyr yn elwa drwy gael marchnad gystadleuol sy'n cynnig gwerth da am arian.

Er gwaetha'r ffaith fod y farchnad yn gweithio'n dda ar y cyfan, mae gan y Comisiwn Cystadleuaeth (CC) rai pryderon ynglŷn â dyfodol hir dymor y gadwyn gyflenwi. Prif bryder y CC oedd y ffaith fod rhai adwerthwyr nwyddau cartref yn defnyddio'u grym prynwyr dros y cyflenwyr nwyddau cartref, drwy fabwysiadu arferion cadwyn gyflenwi a oedd yn trosglwyddo peryglon gormodol a chostau annisgwyl i'r cyflenwyr hynny. Pan fo adwerthwyr nwyddau cartref, yn y gobaith o gael mantais gystadleuol, yn trosglwyddo peryglon gormodol neu gostau annisgwyl i'w cyflenwyr, canfu'r CC ei fod yn debygol o leihau'r anogaeth i gyflenwyr fuddsoddi mewn gallu, nwyddau a phrosesau cynhyrchu newydd. Daeth y CC i'r casgliad y byddai hyn yn y pen draw, heb ei atal, yn cael effaith negyddol ar ddefnyddwyr, drwy arwain at nwyddau o safon is, llai o ddewis o nwyddau, neu lai o arloesedd nwyddau.

Credwn yn gryf fod cyflenwyr yn haeddu bargen deg. Mae angen atal yr arferion hyn os nad yw defnyddwyr i ddioddef yn y tymor hir. Mae'r Cod Ymarfer Cyflenwi Nwyddau Cartref (GSCOP) yn gam i'w groesawu, gyda'i ddarpariaethau newydd a chryfach, a chwmpas ehangach o adwerthwyr nwyddau cartref.

Ond mae angen mwy i wneud y Cod yn effeithiol mewn gwirionedd. Cafodd adwerthwyr nwyddau cartref gyfle i weithio gyda'r CC i sefydlu Ombwdsmon. Ni dderbyniwyd yr ymrwymiad hwn gan yr adwerthwyr nwyddau cartref, ac mae'r CC wedi gofyn i'r Llywodraeth ymyrryd.

Rydym yn derbyn bod angen monitro a gweithredu'r GSCOP yn annibynnol. Nid yw'r egwyddor o sefydlu corff i fonitro a gweithredu'r GSCOP yn fater ar gyfer yr ymgynghoriad hwn.

Ond mae angen i ni sicrhau bod hyblygrwydd yn parhau ar gyfer trafodaethau masnachol rhwng cyflenwyr ac adwerthwyr am brisiau ac elfennau masnachol eraill o'r cytundeb cyflenwi. Rydym yn awyddus i sicrhau cydbwysedd cywir, fel bod cyflenwyr yn cael eu trin yn deg er mwyn medru cynllunio yn hyderus, ond hefyd i sicrhau nad yw adwerthwyr yn cael eu hatal rhag sicrhau'r fargen orau a phasio'r buddiannau ymlaen i'r defnyddwyr.

Rydym hefyd yn ystyried enw i'r corff. Derbyniodd fy adran sawl cynrychiolaeth yn nodi y gallai'r term Ombwdsmon fod yn ddryslyd a chamarweiniol o ran ei swyddogaeth. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi mabwysiadu'r enw corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth GSCOP.

Gwahoddir partïon â diddordeb i roi eu barn ar y ffordd y mae argymhelliad y CC am gorff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r cod ymarfer cyflenwi nwyddau cartref (GSCOP) yn cael ei ddatblygu.

Kevin Brennan AS

Crynodeb Gweithredol

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn

1. Yn adroddiad y Comisiwn Cystadleuaeth i gyflenwad nwyddau cartref yn y DU, nodwyd bod rhai adwerthwyr mawr yn trosglwyddo perygl gormodol a chostau annisgwyl i gyflenwyr, gan leihau menter a buddsoddiad yn y gadwyn cyflenwi nwyddau cartref. Ar 13 Ionawr cyhoeddodd y Llywodraeth Ymateb i'r argymhellion, gan nodi eu bod yn:
    a. Derbyn barn y Comisiwn Cystadleuaeth fod angen monitro a gweithredu annibynnol ar y GSCOP i edrych yn llawn ar yr Effaith Anffafriol ar Gystadleuaeth;
    b. Cytuno y dylai'r corff sy'n monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP gael y grym i wrando ar gwynion dienw;
    c. Barod i ymgynghori wedi i'r GSCOP ddod i rym ar 4 Chwefror 2010 ar y grymoedd penodol y dylai corff sy'n monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP eu cael, ac a ddylid sefydlu corff newydd neu roi'r grymoedd hyn i gorff sydd eisoes yn bodoli.

2. Nodwyd yr arferion hyn er gwaethaf bodolaeth y Cod Ymarfer Archfarchnadoedd (SCOP), Cod a luniwyd yn dilyn ymchwiliad eang 2000 i adwerthu nwyddau cartref, a gynhaliwyd dan y Ddeddf Masnachu Teg. Tynnodd yr ymchwiliad sylw at fodolaeth a defnydd grŵp o arferion a oedd yn erbyn budd y cyhoedd, yn ymddygiad pump o adwerthwyr nwyddau cartref tuag at eu cyflenwyr. Arweiniodd hyn at lunio'r SCOP sydd wedi rheoleiddio ymddygiad y pedwar adwerthwr mwyaf (Asda, Morrisons, Sainsbury's a Tesco) gyda'u cyflenwyr.

3. Mae'r Swyddfa Masnachu Teg (OFT) wedi goruchwylio gweithrediad y SCOP ers ei greu. Adolygodd yr OFT y SCOP yn 2004, ac fe gyhoeddodd archwiliad annibynnol o gydymffurfiaeth adwerthwyr gyda'r SCOP ym mis Mawrth 2005. Yn ogystal â'r archwiliad, galwodd yr OFT am dystiolaeth am agweddau eraill o gyflenwad nwyddau cartref gan adwerthwyr a oedd yn effeithio'n negyddol ar gystadleuaeth. Ym mis Awst 2005, penderfynodd yr OFT beidio cyfeirio'r farchnad at y Comisiwn Cystadleuaeth, ond ailystyriwyd y penderfyniad hwn yn dilyn apêl i'r Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth (CAT) gan gymdeithas *Association of Convenience Stores*, ac fe gafodd ei gyfeirio ym mis Mai 2006. Un o bryderon yr OFT oedd y dystiolaeth i awgrymu bod grym prynwyr wedi cynyddu ers 2000, ac y gallai'r grym prynwyr hwn niweidio dewis defnyddwyr.

4. Codwyd ystod eang o faterion perthnasol i'r gadwyn cyflenwi nwyddau cartref gyda'r CC yn ei adroddiad terfynol ym mis Ebrill 2008. Dangosodd y CC yn glir fod arfer adwerthwyr nwyddau cartref o ddefnyddio grym prynwyr yn debygol o arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr, yn arbennig lle bo'r gystadleuaeth rhwng adwerthwyr nwyddau cartref yn effeithiol, a'r defnyddwyr yn elwa yn sgil prisiau is. Gall hefyd sbarduno menter yn y gadwyn gyflenwi. Gall grym prynwyr, fodd bynnag, achosi pryder dan rhai amgylchiadau. Canfu'r CC fod adwerthwyr nwyddau cartref, yn y gobaith o gael mantais gystadleuol, yn trosglwyddo peryglon gormodol neu gostau annisgwyl i'w cyflenwyr, a bod hyn yn debygol o leihau'r anogaeth i gyflenwyr fuddsoddi mewn gallu, nwyddau a dulliau

cynhyrchu newydd. Daeth y CC i'r casgliad y byddai hyn, heb ei atal, yn y pen draw yn cael effaith negyddol ar ddefnyddwyr, drwy arwain at nwyddau o safon is, llai o ddewis o nwyddau, neu lai o arloesedd nwyddau, nad yw er lles defnyddwyr yn y tymor hir.

5. I wynebu'r pryderon a nodwyd, penderfynodd y CC sefydlu Cod Ymarfer Cyflenwyr Nwyddau Cartref newydd (GSCOP). Mae'r cod hwn, sy'n dod i rym ar 4 Chwefror 2010, yn berthnasol i bob cwmni sy'n weithgar yn y sector ac sydd â throsiant adwerthu blynyddol o £1biliwn neu fwy. Mae'r GSCOP newydd wedi'i seilio ar y SCOP, ond yn cryfhau ac ehangu'r SCOP yn sylweddol, gan ofyn i adwerthwyr, er enghraifft, sicrhau bod pob cytundeb yn ysgrifenedig, ac yn atal newidiadau ôl-weithredol i daliadau. Mae'r GSCOP hefyd yn caniatáu ar gyfer cymodi gorfodol annibynnol mewn anghydfodau, ac yn gofyn i adwerthwyr nwyddau cartref ddarparu rhybudd rhesymol a chyfiawnhad masnachol cyn tynnu cyflenwr oddi ar restr (mae'r GSCOP yn nodi na all Adwerthwr dynnu enw cyflenwr oddi ar ei restr heb resymau masnachol dilys). Ceir manylion yn ddiweddarach yn y ddogfen ymgynghorol.

6. Roedd nifer o gyflenwyr wedi dweud wrth y CC eu bod yn amharod i ddefnyddio proses gwynion y SCOP yn sgil pryderon am gael eu hadnabod a'r tebygrwydd o gael eu tynnu oddi ar restr yr adwerthwyr.

7. Mae'r CC yn ystyried y bydd y GSCOP yn llawer mwy effeithiol gydag Ombwdsmon a fydd yn barod i herio'r "hinsawdd o ofn" y soniodd nifer o gyflenwyr amdano dan y cod ymarfer blaenorol. Mae'r CC yn credu bod angen rheolydd i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP ac i gynnal ymchwiliadau. Dylai'r gwaith hwn gynnwys, er enghraifft, ymchwilio i gwynion dienw, cwynion sy'n codi gan drydydd parti, a chwynion cyson yn erbyn adwerthwr penodol. Bydd y corff hefyd yn gofyn am rym i godi arian gan adwerthwyr dynodedig i dalu costau'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP.

8. Nid oes gan y CC rym i sefydlu cyrff cyhoeddus newydd. Ceisiodd, ond methodd, y CC gael ymrwymiadau gwirfoddol gan adwerthwyr ar gyfer Ombwdsmon. O ganlyniad, argymhellodd y CC y dylai'r Llywodraeth gymryd y camau angenrheidiol i sefydlu Ombwdsmon, cyn gynted ag y byddai'n ymarferol, gyda'r grym i weithredu'r GSCOP ac i ddirwyo adwerthwyr am ddiffyg cydymffurfiaeth.

9. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried argymhelliad y CC yn ofalus iawn, ac wedi derbyn cynrychiolaeth sylweddol o bob ochr i'r drafodaeth. Yn fwy diweddar, cyfarfu Gweinidogion gyda nifer o fusnesau a mudiadau cynrychioli i glywed eu barn wyneb yn wyneb.

10. Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod angen i gydymffurfiaeth GSCOP gael ei fonitro a'i weithredu'n annibynnol, a bod angen peirianwaith i wrando ar gwynion dienw. Mae'r pwynt olaf hwn yn bwysig iawn. Serch hynny, mae gwahaniaethau barn a ddylai'r Llywodraeth greu corff newydd, neu a all hyn eistedd oddi mewn i strwythur sydd eisoes yn bodoli. Ar yr un pryd mae angen i ni ystyried y baich rheoliadol y gall hyn osod wrth ddatblygu

unrhyw argymhelliad polisi. Mae'r ymgynghoriad hwn felly yn gofyn am farn ar:

- Pa rymoedd y dylai'r corff sy'n monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP eu cael, yn ogystal â bod yn gorff sy'n medru gwrando ar gwynion dienw.
- Mynediad at y corff.
- Pwy ddylai'r corff monitro a gweithredu fod, gan gynnwys rhai opsiynau posibl.
- A ddylid cyflwyno trefn gosbi, a sut gallai weithredu wrth ochr peirianwaith apêl.
- Ariannu'r corff sy'n monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP.

11. Felly, rydym yn ymgynghori gyda phob un sydd â diddordeb yn y gadwyn cyflenwi nwyddau cartref. Mae hyn yn cynnwys yr adwerthwyr nwyddau cartref mwyaf, sydd wedi'u cwmpasu'n uniongyrchol gan y GSCOP, wrth ochr adwerthwyr nwyddau cartref canolig a llai, lle byddai monitro a gweithredu annibynnol o bosib yn cael effaith. Rydym hefyd am glywed barn y rhai sy'n cyflenwi adwerthwyr mawr naill ai yn uniongyrchol neu drwy ffyrdd eraill. Mae'r GSCOP ei hun yn berthnasol i gyflenwyr uniongyrchol yr adwerthwyr yn unig, ond mae'r CC wedi argymell y dylai'r corff fedru ymchwilio i gwynion gan unrhyw berson arall.

12. Mae cystadleuaeth yn fater i'r DU ac felly bydd unrhyw system weithredu GSCOP sy'n cael ei sefydlu yn berthnasol i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

13. Bydd yr ymatebion a dderbynnir o gymorth i sefydlu ymgynghoriad manylach a fydd yn ofynnol cyn gwneud penderfyniad terfynol ar gynnwys y corff.

14. Os yw'r ymateb yn gwbl neu'n rhannol gyfrinachol, gweler Paragraff 11 (Cyfrinachedd a Diogelu Data).

Diffiniad nwyddau cartref

15. At ddibenion yr ymateb mae 'nwyddau cartref' yn cynnwys bwyd (ac eithrio'r hyn sy'n cael ei werthu i'w fwyta yn y siop), bwyd anifeiliaid, diodydd, nwyddau glanhau, taclau ymolch a nwyddau i'r tŷ.

16. Nid yw'r term yn cynnwys petrol, dillad, nwyddau DIY, gwasanaethau ariannol, deunydd fferyllol, papurau newydd a chylchgronau, cardiau cyfarch, CDs, DVDs, fideos a thapiau sain, teganau, planhigion, blodau, persawr, colur, teclynnau trydanol, offer cegin, offer garddio, llyfrau, tybaco a nwyddau tybaco.

Sut i Ymateb

17. Wrth ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn mudiad. Os ydych yn ymateb ar ran mudiad, eglurwch pwy mae'r

mudiad yn eu cynrychioli, a lle bo'n berthnasol, sut y casglwyd barn yr aelodau.

18. Gellir anfon ymatebion i'r Ymgynghoriad yn electronig at GSCOPmonitoringbody@bis.gsi.gov.uk

19. Gellir cyflwyno ymateb (hefyd) drwy lythyr, ffacs neu ebost at:

    Steve Smith
    Cyfarwyddiaeth Polisi Defnyddwyr a Chystadleuaeth 2 (CCP2)
    Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau.
    Bae 414
    1 Victoria Street
    Llundain SW1H 0ET
    Ffôn: 020 7215 2776
    Ffacs: 020 7125 2837
    Ebost steve.x.smith@bis.gsi.gov.uk

20. Ceir rhestr o'r mudiadau a'r unigolion a holwyd yn Atodiad B. Croesawir awgrymiadau am fudiadau neu unigolion eraill a fyddai o bosib yn dymuno cael eu cynnwys yn y broses ymgynghorol hon.

Copïau ychwanegol

21. Gallwch wneud copïau o'r ddogfen hon heb ofyn am ganiatâd. Ceir copïau caled ychwanegol o'r ddogfen ymgynghorol oddi wrth:

    BIS Publications Orderline
    ADMAIL 528
    Llundain SW1W 8YT
    Ffôn: 0845-015 0010
    Ffacs: 0845-015 0020
    Minicom: 0845-015 0030
    www.BIS.gov.uk/publications

22. Ceir fersiwn electronig ar www.berr.gov.uk/files/file54425.pdf. Ceir fersiwn Gymraeg ar www.berr.gov.uk/files/file54426.pdf.

23. Mae fersiynau eraill o'r ddogfen mewn Braille, ieithoedd eraill neu gasét sain ar gael ar eich cais.

Cyfrinachedd & Diogelu data

24. Gall gwybodaeth sy'n cael ei ddarparu mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei gyhoeddi neu ryddhau i bartïon eraill, neu gael ei ddatgelu yn unol gyda'r drefn mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Os ydych am i wybodaeth, gan gynnwys data personol yr ydych yn ei ddarparu, gael ei drin yn gyfrinachol, cofiwch dan y Ddeddf Rhyddid

Gwybodaeth bod Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau gydymffurfio gydag ef, ac sy'n delio, ymysg pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

25. Yng ngoleuni hyn, byddai'n ddefnyddiol pe bai modd i chi egluro eich rhesymau dros farnu bod y wybodaeth a ddarparwyd yn gyfrinachol. Os fyddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn warantu y gellir sicrhau cyfrinachedd dan bob amgylchiadau. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchwyd gan eich system TG, yn ei hun, yn cael ei ystyried fel rhwymedigaeth ar yr Adran.

Cymorth gydag ymholiadau

26. Dylid cyfeirio cwestiynau am faterion polisi sy'n codi yn y ddogfen hon at:

Steve Smith
Cyfarwyddiaeth Polisi Defnyddwyr a Chystadleuaeth
Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau.
Bae 414
1 Victoria Street
Llundain SW1H 0ET
Ffôn: 020 7215 2776
Ebost steve.x.smith@bis.gsi.gov.uk

Cwynion

27. Os oes gennych sylwadau neu gwynion am y ffordd y cafodd yr ymgynghoriad hwn ei gynnal, dylid eu hanfon at:

Tunde Idowu, Cydlynydd Ymgynghoriad

Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau
Tîm Gwell Rheoleiddio
1 Victoria Street
Llundain
SW1H 0ET

E-bost: Babatunde.idowu@BIS.gsi.gov.uk
Ffôn: 020 7215 0412
Ffacs: 020 7215 0235

Sylwadau

28. Gwerthfawrogir sylwadau ar ein hargymhellion gydag unrhyw dystiolaeth ategol sydd gennych. Hefyd croesawir unrhyw syniadau neu argymhellion eraill a fyddai'n cynorthwyo i gyflawni amcanion polisi'r ymgynghoriad hwn. Gwerthfawrogid pe bai modd i chi dynnu ein sylw at unrhyw ganlyniadau anfwriadol neu unrhyw oblygiadau eraill yr ydych wedi eu nodi o ran ein hargymhellion.

29. Gwahoddir chi i wneud sylw ar y dadansoddiad o gostau a buddiannau ac effaith ar gydraddoldeb. Ceir asesiad effaith drafft yn Atodiad D (gweler y fersiwn Saesneg). Gofynnir i chi edrych ar hwn a darparu unrhyw ddata sy'n ddefnyddiol yn eich barn chi. Os oes gennych awgrymiadau am ffyrdd eraill o gyflawni ein hamcanion, byddai diddordeb gennym glywed amdanynt.

31. Ceir rhestr o gysylltiadau defnyddiol at ddogfennau gan yr OFT, CC a BIS o ran yr ymgynghoriad hwn yn Atodiad C.

32. Ceir copi o'r Cod Ymarfer Ymgynghoriadau yn Atodiad A.

Rhestr o gwestiynau'r ymgynghoriad

Gweithgareddau

1. A ddylai'r corff sy'n monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP dderbyn yr holl ddyletswyddau a grymoedd hyn?

2. A oes rhai gweithgareddau sy'n bwysicach nag eraill, ac os felly, pa rai?

3. A oes gweithgareddau eraill y dylid eu hystyried, ac os felly, beth?

4. A ddylid gwrthod rhai o'r gweithgareddau sy'n cael eu hargymell, ac os felly, pa rai?

5 Bydd angen grymoedd casglu gwybodaeth ar y corff sy'n monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP er mwyn cynnal ymchwiliadau effeithiol. Pa mor gyffredinol neu benodol y dylai'r grymoedd fod?

6. Pan fo'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP yn cymryd penderfyniad yn dilyn proses gymodi neu ymchwiliad, dylai'r penderfyniad fod yn agored i apêl. Pwy ddylai wrando ar yr apêl?

7. O ran yr egwyddorion cyffredinol y dylai'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP eu hystyried yn eu gwaith, a ddylai'r rhain fod dros gyfnod amhenodol?

8. A yw'r egwyddorion awgrymedig (paragraff 2.17, a-c) i'w hystyried gan y corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP wrth gyflawni'i ddyletswyddau yn briodol?

9. A yw'r egwyddorion cyffredinol yn rhy eang? A ddylid eu gwneud yn fwy penodol? Os felly, sut?

10. A ddylid gosod yr egwyddorion mewn deddfwriaeth?

Pwy ddylai'r corff fod

11. A oes corff cyfredol a fedrai gymryd y swyddogaeth hon? Os felly, pwy?

12. Beth yw buddiannau neu ddiffygion rhoi'r swyddogaeth hon i gorff sydd eisoes yn bodoli?

13. A yw'n bwysig creu corff newydd ac a oes dadleuon cryf o blaid neu yn erbyn hyn?

Trefn gosbi

14. Pa mor hanfodol yw'r grym i gosbi i swyddogaeth y corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP?

15. Os yw'n bwysig, sut ddylid gosod cosbau?

16. Ar ba lefelau y dylid eu gosod?

17. A oes rhwystrau eraill a fedrai fod yn effeithiol?

18. A fedrai camau eraill gan y corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP i atal torri'r GSCOP fod yn effeithiol?

19. Pwy ddylai wrando ar yr apêl?

Cwmpas

20. A ddylai cwynion i'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP fod yn gyfyngedig i'r cyflenwyr uniongyrchol dan y GSCOP?

21. A ddylid eithrio cyflenwyr mawr fel y gall y corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP ganolbwyntio ar gwynion gan rai llai sy'n fwy bregus yn sgil eu maint?

22. Os ddylid cael trothwy, sut ddylid ei gyfrifo?

23. A oes unrhyw beth arall y dylid ei nodi, h.y. a oes (e) i baragraff 5.3?

Ariannu'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP

24. Ai'r dull sy'n cael ei argymell gan y CC yw'r ffordd fwyaf priodol o gyfrifo cyfran bob parti o gostau'r corff?

25. A ddylai cyllid y corff fod ar sail meini prawf eraill, megis taliad cyfradd unffurf gan bob un o'r adwerthwyr dynodedig, ac os felly, beth?

Asesiad Effaith (gweler y fersiwn Saesneg)

26. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y drafft asesiad effaith yn Atodiad D, gan gynnwys costau a buddiannau'r dewis hwn ac unrhyw faterion penodol eraill? Rhowch dystiolaeth ategol.

Cwestiynau Asesiad Effaith Cydraddoldeb

27. A oes gennych unrhyw dystiolaeth am effaith y byddai'r gweithgareddau, cosbau, y corff, mynediad at y corff a chyllid yn eu cael ar wahanol grwpiau o fusnes neu ddefnyddwyr?

28. A oes unrhyw faterion cydraddoldeb eraill sydd angen eu hystyried yn y maes hwn?

Pennod 1. Cyflwyniad

1.1 Bu lefel sylweddol o weithgaredd gan yr awdurdodau cystadleuaeth yn y farchnad nwyddau cartref dros y ddegawd ddiwethaf. Mae'r CC ei hun wedi cynnal pedwar ymchwiliad i'r sector adwerthu nwyddau cartref ers 1999/2000. Roedd y cyntaf, a adwaenir fel ymchwiliad 2000, yn eang ac yn debyg i'r ymchwiliad mwyaf diweddar, ond wedi'i gynnal dan ddarpariaethau monopoli Deddf Masnachu Teg 1973. Roedd yr ail a'r trydydd ymchwiliad yn fwy cyfyngedig, ac yn ymateb i drafodion uniad penodol.

1.2 Daeth ymchwiliad 2000 i'r casgliad bod rhai arferion gan archfarchnadoedd yn arwain at sefyllfa monopoli cymhleth, ac fe ganfu bod dau grŵp o'r arferion hyn yn gweithredu yn erbyn budd y cyhoedd.

1.3 Roedd un o'r grwpiau arferion hyn yn ymwneud ag ymddygiad pump o adwerthwyr nwyddau cartref tuag at eu cyflenwyr. Penderfynodd y CC bod unrhyw brif barti â dros 8% o gyfran o bwrcasau nwyddau cartref i'w adwerthu o'u siopau, fel rheol, yn medru rheoli eu perthynas gyda chyflenwyr er mantais i'w hunain, tra bod y rhai llai ymhell o fedru gwneud hynny i'r un graddau. Felly nododd y dylai adwerthwr nwyddau cartref â chyfran genedlaethol o werthiant nwyddau cartref dros 8% orfod cydymffurfio gyda chod ymarfer. Arweiniodd hyn at sefydlu Cod Ymarfer Archfarchnadoedd (SCOP). Y pum adwerthwr nwyddau cartref a nodwyd gan y CC oedd Asda, Safeway, Sainsbury's, Somerfield a Tesco. Yn ddiweddarach canfuwyd bod cyfradd Somerfield yn llai na 8% ac ni ymunodd gyda'r SCOP. Prynwyd Safeway yn ddiweddarach gan Morrisons, ac fe gytunodd Morrisons i ymrwymo i'r SCOP fel pe bai wedi arwyddo.

1.4 Roedd darpariaethau'r SCOP yn cwmpasu materion megis telerau cyffredinol busnes, prisiau a thaliadau, hyrwyddiadau, iawndal, cwynion defnyddwyr, ymdriniaeth â thrydydd parti a hyfforddiant staff. Ceir y Cod llawn ar
http://www.oft.gov.uk/shared_oft/monopolies/supermarkets2.pdf

1.5 Parhaodd yr OFT i edrych ar ystod o faterion yn dilyn ymchwiliad 2000. Roedd hyn yn cynnwys arolygu'r SCOP. Mewn ymateb i bryderon rhannau o'r sector gyflenwi ynglŷn ag effeithiolrwydd SCOP, ymgymerodd yr OFT ag ymchwiliad o SCOP yn 2004 ac archwiliad o gydymffurfiaeth adwerthwyr yn 2005.[1]

1.6 Roedd yr archwiliad cydymffurfiaeth archfarchnadoedd yn edrych ar berthynas sampl o 500 o gyflenwyr nwyddau cartref gyda'r pedair archfarchnad fawr. Cymharol ychydig o dystiolaeth a ganfuwyd o dorri'r Cod. Serch hynny, roedd tystiolaeth am rai enghreifftiau o'i dorri, yn cynnwys gofyniad archfarchnadoedd y dylai cyflenwyr wneud taliadau arian yn ymwneud â theyrngarwch a pharhau i gyflenwi. Ymddengys nad oedd cyflenwyr yn cwyno wrth yr archfarchnadoedd am orfod gwneud y taliadau, a

[1] http://www.oft.gov.uk/shared_oft/reports/comp_policy/oft783.pdf

bellach mae'r taliadau hyn, a oedd yn bennaf yn ymwneud â Safeway cyn i Morrisons ei brynu, wedi dod i ben.

1.7 Heb ddefnyddio cyfryngu i ddatrys anghydfodau fel rhagwelwyd gan y Cod, roedd yn anodd asesu effeithiolrwydd y Cod.

1.8 Gwahoddodd yr OFT bartïon i gyflwyno tystiolaeth berthnasol i archwiliad SCOP, ac unrhyw dystiolaeth i ddangos os oedd agweddau o gyflenwad nwyddau cartref gan adwerthwyr nwyddau cartref yn effeithio'n negyddol ar gystadleuaeth. I ddechrau daeth yr OFT i'r casgliad nad oedd lle i gyfeirio ymchwiliad marchnad i'r CC. Serch hynny, heriwyd y penderfyniad gan yr *Association of Convenience Stores* (ACS) i'r Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth (CAT). Ymchwiliodd yr OFT ymhellach i'r mater, a chyfeirio at y CC ar 9 Mai 2006, gan arwain at ymchwiliad y CC.

1.9 Gwnaed y cyfeiriad OFT[2] ar y sail bod nifer o agweddau o'r farchnad y gellid amau'n rhesymol eu bod yn atal, cyfyngu neu wyrdroi cystadleuaeth. I grynhoi, roedd yr OFT yn poeni bod agweddau o'r system gynllunio, daliadau tir, grym prynwyr a rhai polisïau prisio o ran adwerthwyr mawr nwyddau cartref, oll i raddau ag effaith gwrth gystadleuol. Yn ystod yr ymchwiliad CC ystyriwyd bob un o'r materion hyn.

1.10 Wrth ystyried y mater penodol o ddefnyddio grym prynwyr, nid oedd y CC yn canfod fod hyn o reidrwydd yn niweidiol i ddefnyddwyr. Serch hynny, yng nghwrs ei ymchwiliad, nododd y CC, dan amodau cyfyngedig, arferion gan adwerthwyr mawr a fedrai arwain at ostyngiad sylweddol mewn ysgogiad a gallu cyflenwyr i fuddsoddi a mentro ar linellau cynnyrch neu brosesau cynhyrchu newydd. Roedd y CC yn arbennig o bryderus bod yr adwerthwyr yn gwneud addasiadau ôl-weithredol, gan osod risg gormodol a chostau annisgwyl ar gyflenwyr. Roedd adwerthwyr penodol hefyd yn trosglwyddo risg i gyflenwyr am golled (shrinkage) cynnyrch bychain o werth uchel. Gallai cynhyrchwyr ddylanwadau ar lefel y risg drwy gynnwys nodweddion diogelwch yn y pecynnu, a'r adwerthwyr drwy storio'r nwyddau'n ddigonol ac argymell ffurfiau pecynnu penodol.

1.11 I gyd, derbyniodd y CC 380 o bryderon gan gyflenwyr a mudiadau cyflenwi. Roedd bron i hanner y pryderon yn gysylltiedig â throsglwyddo risg gormodol neu gostau annisgwyl oddi wrth adwerthwyr nwyddau cartref i gyflenwyr, a threian ynglŷn â gofynion am daliadau ôl-weithredol neu addasiadau eraill i gytundebau cyflenwi blaenorol.

1.12 Daeth y CC i'r casgliad y byddai hyn, heb ei atal, yn y pen draw yn cael effaith negyddol ar ddefnyddwyr, drwy arwain at nwyddau safon is, llai o ddewis o nwyddau, neu lai o arloesedd nwyddau, nad yw er lles defnyddwyr yn y tymor hir.

1.13 Gosodwyd y canfyddiadau ac atebion yn adroddiad terfynol y CC, a gyhoeddwyd ar 30 Ebrill 2008. Penderfynodd y CC sefydlu Cod Ymarfer

[2] http://www.oft.gov.uk/shared_oft/reports/comp_policy/oft845.pdf

Cyflenwi Nwyddau Cartref (GSCOP)[3] , wedi'i seilio ar y SCOP cyfredol, ond wedi'i addasu i gynnwys adwerthwyr mawr nwyddau cartref, gyda throsiant nwyddau cartref gwerth £1 biliwn neu fwy yn y DU. Hefyd roedd y GSCOP yn cynnwys darpariaeth masnachu teg cyffredinol, i wahardd nifer o'r arferion a fu'n digwydd. Nodweddion pwysig eraill oedd darpariaeth awtomatig telerau ac amodau cyffredinol i'r cyflenwyr cyn llofnodi cytundeb, cyflwyno proses gymodi gorfodol ac amddiffyniad rhag tynnu cyflenwyr oddi ar restrau.

1.14 Yn ogystal â'r ateb hwn, penderfynodd y CC ofyn am ymrwymiad gan adwerthwyr nwyddau cartref i sefydlu Ombwdsmon GSCOP i fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP yn effeithiol. Dywedodd y CC pe na bai'n cael ymrwymiad boddhaol o fewn cyfnod rhesymol o amser, y byddai'n gofyn i'r Llywodraeth ymyrryd, a chymryd y camau angenrheidiol i greu Ombwdsmon GSCOP. Yn ei ymateb ar 29 Gorffennaf dywedodd y Llywodraeth pe bai'r CC yn methu sicrhau ymrwymiadau a bod argymhelliad yn cael ei wneud i'r Llywodraeth, y byddai'n seilio unrhyw asesiad ar yr hyn sydd er lles defnyddwyr[4].

1.15 Er gwaethaf rownd o ymgynghoriadau ni lwyddodd y CC i gael ymrwymiadau gan yr adwerthwyr nwyddau cartref i sefydlu Ombwdsmon GSCOP[5]. Ar 4 Awst 2009 gofynnwyd yn ffurfiol i'r Llywodraeth gymryd y camau angenrheidiol i sefydlu Ombwdsmon effeithiol.

1.16 Derbyniodd y Llywodraeth yr angen am gorff annibynnol i fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda GSCOP ac fe gyhoeddwyd ymateb i'r argymhelliad ffurfiol ar 13 Ionawr[6].

1.17 Mae'r ymgynghoriad yn gofyn yn benodol am farn ar agweddau o'r drefn weithredu arfaethedig sydd wedi'u cynnwys yn y penodau canlynol, sef

- Pa rymoedd y dylai'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP eu cael, yn ogystal â bod yn gorff sy'n medru gwrando ar gwynion dienw
- Mynediad at y corff monitro a gorfodi
- Pwy ddylai'r corff monitro a gorfodi fod, gan gynnwys rhai dewisiadau posibl
- A ddylid cyflwyno trefn gosbi, a sut fyddai'n gweithio wrth ochr unrhyw beirianwaith apelio.
- Ariannu corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP

[3] http://www.competition-commission.org.uk/inquiries/ref2006/grocery/pdf/revised_gscop_order.pdf

[4] http://www.berr.gov.uk/files/file47089.pdf

[5] http://www.competition-commission.org.uk/inquiries/ref2006/grocery/pdf/gscop_2_bis_letter.pdf

[6] http://www.berr.gov.uk/files/file54194.pdf

Pennod 2. Yr argymhellion: Gweithgareddau'r corff

2.1 Mae'r Llywodraeth yn derbyn yr angen am gorff annibynnol i fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r cod ymarfer cyflenwi nwyddau cartref (GSCOP) ac yn gofyn am farn ar y gweithgareddau y dylid eu rhoi i'r corff.

2.2 Gwnaed y Gorchymyn GSCOP yn Awst 2009 ac mae'n dod i rym ar 4 Chwefror 2010. Mae'n manylu ynglŷn ag ymgorfforiad darpariaeth deliad teg fel ffordd bwysig o amddiffyn rhag trosglwyddo risg gormodol a chostau annisgwyl oddi wrth adwerthwyr nwyddau cartref mawr i'w cyflenwyr. Mae'r ddarpariaeth yn cyfyngu ar arfer gwael, ond yn caniatáu hyblygrwydd masnachol. Prif bryder y CC yw addasiadau ôl-weithredol i delerau cyflenwi. Fodd bynnag, mae amodau eraill yn bodoli lle mae gormod o risg i'r cyflenwr, er bod cytundeb o flaen llaw, gan mai'r adwerthwr sydd yn y sefyllfa orau i reoli'r risg hwnnw. Bydd y Gorchymyn yn weithredol, a chyflenwyr yn medru mynd ag unrhyw anghydfod i'w gymodi, o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

Gellir gweld y Gorchymyn llawn ar:

http://www.competition-commission.org.uk/inquiries/ref2006/grocery/pdf/revised_gscop_order.pdf

2.3 Wrth gyflawni ei adroddiad terfynol, derbyniodd y CC dystiolaeth gan nifer fawr o bartïon a gwnaed achos argyhoeddiadol dros yr angen am gorff annibynnol i fonitro a gweithredu'r GSCOP. Mae'r CC yn amcangyfrif bod o leiaf 20 o'r 52 o arferion a nodwyd yn ymchwiliad 2000 yn parhau i ddigwydd er gwaethaf cyflwyno'r SCOP. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi derbyn sawl cynrychiolaeth ysgrifenedig ac wedi cynnal nifer o gyfarfodydd wyneb yn wyneb sy'n ategu'r farn hon. Mae'r Llywodraeth yn cytuno bod monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP yn angenrheidiol i sicrhau ei effeithiolrwydd. Felly mae'r Llywodraeth yn gofyn sut ddylid datblygu'r argymhelliad hwn. Dylid darllen yr argymhellion ynghyd â Rhybudd y CC o argymhelliad i dderbyn ymrwymiadau yn unol ag adran 165 o, a Rhestr 10 o, Ddeddf Menter 2002, ac ymgynghoriad cyhoeddus ar yr ymrwymiadau arfaethedig a geir yn llawn ar:

http://www.competition-commission.org.uk/inquiries/ref2006/grocery/pdf/ombudsman_undertakings.pdf

Gweithgareddau'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP yn ôl argymhelliad y Comisiwn Cystadleuaeth

2.4 Prif amcan y corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP fydd ymgymryd ag Ymchwiliadau a chymodi Anghydfodau yn codi o'r Cod hwn i hyrwyddo diddordebau defnyddwyr. Mae'r CC wedi egluro y dylai swyddogaeth y corff gweithredu gael ei gyfyngu i faterion perthnasol i'r Cod.

Prif ddyletswyddau arfaethedig y corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP fel y nodwyd gan y CC yw:

(a) **gweithredu fel cymodwr rhwng Adwerthwyr a Chyflenwyr Dynodedig mewn Anghydfodau sy'n codi dan y Cod;**

2.5 Bydd y corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP yn gweithredu fel cymodwr Anghydfodau, ac yn cynnal unrhyw gymodi yn unol â Rheolau Sefydliad Siartredig y Canolwyr. Bydd y costau yn syrthio ar yr Adwerthwr Dynodedig, oni bai fod y canolwr yn penderfynu bod honiad y Cyflenwr yn flinderus neu hollol ddi-sail, a bydd y penderfyniad yn orfodol a therfynol i'r Adwerthwr a'r Cyflenwr Dynodedig, yn ddibynnol ar apêl. Mae'r swyddogaeth hon yn rhan o'r Gorchymyn GSCOP a ddaeth i rym ar 4 Chwefror ac fe fydd, felly, yn rhan o'r drefn weithredu.

(b) **derbyn cwynion ynglŷn â thorri'r Cod, a lle bo'n briodol, cynnal Ymchwiliadau;**

2.6 Yn ogystal â datrys anghydfodau, argymhellodd y CC y dylai'r corff monitro a gweithredu hefyd gael grym i dderbyn a, lle bo'n briodol, ymchwilio i gwynion am dorri'r GSCOP. Mae gwahaniaeth pwysig rhwng y swyddogaeth hon a'r swyddogaeth datrys anghydfod. Lle bo'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP yn cael eu hysbysu am anghydfod, bydd y drefn yn gofyn i adwerthwr gael cyfle i ateb ac wynebu unrhyw honiadau penodol. Bydd rhaid i anghydfod felly ddelio â honiadau penodol a wneir gan gyflenwr penodol yn erbyn adwerthwr penodol.

2.7 Mewn cyferbyniad, mae'r CC yn rhagweld y gallai'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP dderbyn cwynion cyfrinachol drwy gasglu gwybodaeth. Ni fyddai cwyn unigol fel rheol yn arwain at unrhyw gamau ac eithrio cael ei gasglu a'i wirio. Ni fyddai dyletswydd i weithredu ar bob cwyn. Gallai gwirio olygu cyfarfod gyda'r cwynwr i ddeall ystod y gŵyn. Pan fo'r corff monitro a gorfodi wedi derbyn digon o wybodaeth – er enghraifft, i weld patrwm ymddygiad ymysg adwerthwyr, neu bryderon am arferion prynu adwerthwr penodol – gallai agor ymchwiliad. Byddai natur ac ystod yr ymchwiliad yn adlewyrchu'r maes neu feysydd pryder. Gallai fod ynglŷn ag ymddygiad adwerthwr neu adwerthwyr penodol, sector neu sectorau penodol; neu dros gyfnod penodol o amser. Mae'n bwysig nodi lle bo ymchwiliad wedi'i agor ar sail cwynion, mai nod yr ymchwiliad fyddai deall y patrwm ymddygiad, nid y cwynion unigol. Ar y sail hon, nid yw'r CC yn ystyried y byddai angen datgelu'r cwynion a sbardunodd yr ymchwiliad, a byddai hyn yn cael ei gadw'n gyfrinachol rhag yr adwerthwr. Drwy ymchwilio i feysydd o bryder cyson, byddai'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP yn helpu i adeiladu hyder yng ngweithrediad y gadwyn cyflenwi nwyddau cartref.

2.8 Mae'r CC yn argymell y gallai'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP, mewn ymateb i gŵyn gan drydydd parti, gysylltu gyda'r cyflenwr a ddioddefodd yn honedig yn sgil torri'r Cod, er mwyn cadarnhau manylion y gŵyn. Yn fwy na hynny, dylid nodi na fydd cwynion, wrth eu hunain, yn arwain at gosbi adwerthwr.

2.9 Er mwyn cynnal ymchwiliad effeithiol, byddai angen i'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP gael grymoedd casglu gwybodaeth. Byddai gofyn i adwerthwyr ddarparu gwybodaeth angenrheidiol i'r corff gweithredu gyflawni ei ddyletswyddau. Wrth ymgymryd ag ymchwiliadau, gallai'r corff monitro a gweithredu nodi addasiadau posibl i'r GSCOP. Byddai'r OFT yn asesu a oes angen cynghori'r CC i addasu'r gorchymyn GSCOP yn unol â hynny.

2.10 Mae'r Llywodraeth eisoes wedi nodi yn ei ymateb y dylai'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP gael grymoedd i wrando ar gwynion dienw.

***(c)* cyhoeddi canllawiau ar ddarpariaethau penodol y Cod a'r Cynllun lle bo angen;**

2.11 Dylai'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP gyhoeddi canllawiau yn achlysurol ar ddehongliad darpariaethau penodol o'r Cod, a/neu sut y byddai'r corff monitro a gweithredu yn disgwyl i ddarpariaethau o'r fath weithredu; yr arferion a'r gweithdrefnau angenrheidiol i gwblhau swyddogaeth yn unol â'r Cynllun, boed i ddisodli neu ategu arweiniad cyfredol ar swyddogaethau o'r fath.

2.12 Cyn cyhoeddi unrhyw ganllawiau, bydd y corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP yn cyhoeddi canllawiau arfaethedig ar gyfer ymgynghoriad, ac yn ystyried unrhyw sylwadau ar y canllawiau arfaethedig. Byddai'r canllawiau yn edrych ar ddarpariaethau penodol y Cod neu'r arferion a'r gweithdrefnau perthnasol i'r Cynllun.

***(d)* gwneud argymhellion i Adwerthwyr Dynodedig ar sut i wella cydymffurfiaeth gyda'r Cod, a monitro cynnydd ar weithredu argymhellion o'r fath;**

2.13 Yn dilyn Ymchwiliad, gall y corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP wneud argymhellion i Barti (neu Bartïon) ar sut i wella eu cydymffurfiaeth gyda'r Cod. Dylai argymhelliad nodi darpariaethau perthnasol y Cod; arfer y Parti (neu Bartïon) wrth ryngweithio gyda'r Cyflenwyr sy'n codi'r angen am argymhelliad; a'r camau y dylai'r Parti (neu Bartïon) eu cymryd neu eu hepgor i atal yr arfer rhag parhau.

***(e)* cynghori ac adrodd yn gyhoeddus ar weithrediad y Cynllun a'r Cod**

2.14 Bydd y corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP yn adolygu'r Cod a'r Ymrwymiadau ac yn gwneud adroddiad cyhoeddus yn flynyddol.

2.15 Dylai'r adroddiadau gynnwys crynodeb o bob anghydfod sydd wedi cael ei ddatrys rhwng adwerthwyr a chyflenwyr, a chrynodeb o unrhyw ymchwiliad a gynhaliwyd, lle gwelwyd fod y GSCOP wedi'i dorri. Gellid cyhoeddi adroddiadau yn ddibynnol ar gyfrinachedd masnachol. Byddai'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP yn ystyried natur y wybodaeth a'r effaith posibl ar bartïon drwy ddatgelu.

2.16 Yn ogystal ag amlinellu'r gweithgareddau y dylai'r corff monitro a gorfodi ymgymryd â hwy, fel dangosir uchod, mae egwyddorion cyffredinol y dylai'r corff eu hystyried.

2.17 Argymhellwyd y dylai'r corff sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP wrth gyflawni ei ddyletswyddau:

***(a)* ystyried amcan cyffredinol y Cynllun GSCOP i weithio er lles tymor hir defnyddwyr, a chanfyddiadau'r CC yn yr Adroddiad;**

***(b)* beidio hwyluso nac annog cyd-drefniant ymysg Adwerthwyr a/neu Gyflenwyr. Gallai cyd-drefniant o'r fath godi, er enghraifft, o gyfarfodydd o amgylch y bwrdd ac anogaeth unrhyw ddeialog rhwng Cyflenwyr ac Adwerthwyr y tu allan i drefniadau masnachol dwyochrog arferol; ac**

***(c)* osgoi unrhyw weithgaredd nad yw'n canolbwyntio ar amcan cyffredinol y Cynllun. Yn arbennig, wrth ymgymryd â'i swyddogaethau dylai'r corff monitro a gweithredu gyfyngu ei weithgareddau i werthuso gweithrediad y Cod, ac ni ddylai ystyried unrhyw elfennau masnachol eraill o'r Cytundeb Cyflenwi.**

2.18 Amcan terfynol y corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP yw hyrwyddo diddordeb tymor hir defnyddwyr. Nid ydym yn gweld unrhyw rôl ar gyfer corff gweithredol sy'n mynd tu hwnt i fonitro a gweithredu'r GSCOP.

Cwestiynau.

1 A ddylai'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP dderbyn yr holl swyddogaethau a grymoedd hyn?

2 A oes rhai gweithgareddau pwysicach nag eraill, ac os felly, pa rai?

3 A oes gweithgareddau eraill y dylid eu hystyried, ac os felly, beth?

4 A ddylid gwrthod rhai o'r gweithgareddau sy'n cael eu hargymell, ac os felly pa rai?

5 Bydd angen grymoedd casglu gwybodaeth ar y corff sy'n monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP er mwyn cynnal ymchwiliadau effeithiol. Pa mor gyffredinol neu benodol y dylai'r grymoedd fod?

6 Pan fo'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP yn cymryd penderfyniad yn dilyn proses gymodi neu ymchwiliad, dylai'r penderfyniad fod yn agored i apêl. Pwy ddylai wrando ar yr apêl?

7 O ran yr egwyddorion cyffredinol y dylai'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP eu hystyried yn eu gwaith, a ddylai'r rhain fod dros gyfnod amhenodol?

8 A yw'r egwyddorion arfaethedig (paragraff 2.17, a-c) i'w hystyried gan y corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP wrth gyflawni ei ddyletswyddau yn briodol?

9 A yw'r egwyddorion cyffredinol yn rhy eang? A ddylid eu gwneud yn fwy penodol? Os felly, sut?

10 A ddylid gosod yr egwyddorion mewn deddfwriaeth?

Pennod 3. Yr argymhellion: Pwy ddylai'r corff fod

3.1 Mae'r Llywodraeth yn gofyn a ddylai'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP fod yn un newydd, neu a oes cyrff addas eisoes yn bodoli i gymryd y swyddogaethau hyn.

3.2 Asesodd y CC ddau opsiwn mewn manylder. Y cyntaf oedd Ombwdsmon GSCOP, a'r ail yn gyfuniad o ddatrys anghydfod gan ganolwr annibynnol gyda'r OFT yn monitro. Mae'r llywodraeth wedi cydnabod bod angen corff i fonitro a gweithredu'r GSCOP er mwyn i'r GSCOP fod yn effeithiol.

3.3 Yr opsiwn a ffefrir gan y CC yw i gorff annibynnol fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP, corff a fyddai'n medru datblygu perthynas waith gyda'r sector, adeiladu arbenigedd yn y diwydiant a hyrwyddo arfer gorau. Byddai costau'r opsiwn hwn o bosib ychydig yn uwch na chostau cynnwys y swyddogaeth mewn corff cyfredol, ond gallai arwain at arbenigedd manteisiol yn y GSCOP a'r gadwyn cyflenwi nwyddau cartref.

3.4 Opsiwn arall fyddai rhoi'r holl swyddogaethau monitro a gweithredu cysylltiedig gyda'r GSCOP i'r OFT, ac os felly gallai'r gost fod yn llai na chostau corff ymroddedig (e.e. drwy rannu swyddogaethau gweinyddol).

3.5 Mae'r OFT eisoes yn gyfarwydd gyda'r testun. Mae wedi bod yn gyfrifol am fonitro'r SCOP ac mae wedi bod yn barod i dderbyn cwynion dienw. Mae ganddo hefyd swyddogaeth bwysig wrth sicrhau fod y GSCOP yn greiddiol i'r adwerthwyr nwyddau cartref dynodedig erbyn 4 Chwefror 2010. Y prif elfennau yn swyddogaeth yr OFT pan ddaw'r Gorchymyn i rym fydd:

- clustnodi adwerthwyr sy'n cyflawni'r meini prawf yn Erthygl 4 wedi i'r Gorchymyn gael ei wneud

- monitro a gweithredu'r rhwymedigaethau ar adwerthwyr dynodedig a osodwyd yn y Gorchymyn, gan sicrhau fod yr adwerthwyr hyn yn:

  - ymgorffori'r GSCOP mewn cytundebau cyflenwi ac yn sicrhau bod y cytundebau ysgrifenedig ar gael i'w cyflenwyr

  - hyfforddi staff am y GSCOP

  - penodi swyddogion cydymffurfiaeth

  - ymateb i geisiadau gan gyflenwyr i ddechrau camau datrys anghydfodau

  - cynhyrchu adroddiadau cydymffurfiaeth a'u cyflwyno i'r OFT

3.6 Os sefydlir corff ar wahân i fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP, byddai swyddogaeth yr OFT yn gyfyngedig i weithredu a gorfodi'r Gorchymyn yn hytrach na'r GSCOP. Dan yr amgylchiadau hyn, ni fyddai'r OFT yn: darparu arweiniad ar ddehongliad o'r GSCOP; penderfynu a fyddai

materion o fewn ei gwmpas; datrys anghydfodau rhwng cyflenwyr ac adwerthwyr o ran gweithredu'r GSCOP; nac ymchwilio'n rhagweithiol i gwynion cyfrinachol gan gyflenwyr am dorri'r GSCOP. Mae swyddogaeth yr OFT yn cael ei egluro'n fanylach ar http://www.oft.gov.uk/shared_oft/monopolies/GSCOP-OFT-advice.pdf

3.7 Mae'r OFT felly wedi ei glustnodi gan nifer o fudd-ddeiliaid fel corff a fedrai ymgymryd â'r swyddogaeth monitro a gweithredu'r GSCOP. Serch hynny, nid yw'r ymgynghoriad hwn wedi ei gyfyngu i ystyried yr OFT fel y corff cyfredol a fedrai ymgymryd â swyddogaeth monitro a gweithredu. Rydym yn awyddus i glywed a oes cyrff addas eraill a fedrai ymgymryd â gwaith monitro a sicrhau cydymffurfiaeth GSCOP yn effeithiol.

Cwestiynau

11. A oes corff cyfredol a fedrai gymryd y swyddogaeth hon? Os felly, pwy?

12. Beth yw buddiannau neu ddiffygion rhoi'r swyddogaeth monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP i gorff sydd eisoes yn bodoli?

13. A yw'n bwysig creu corff newydd ac a oes dadleuon cryf o blaid neu yn erbyn hyn?

Pennod 4. Yr argymhellion: Trefn gosbi

4.1 Argymhellodd y CC y dylai'r Llywodraeth roi grym ychwanegol i'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP er mwyn cosbi adwerthwyr sy'n torri'r GSCOP.

4.2 Mae darpariaethau cyfredol y SCOP ar gyfer taliadau iawndal gan adwerthwyr wedi'u hymgorffori gan y CC i mewn i'r GSCOP. Serch hynny, nid yw'r CC yn argyhoeddedig fod gorfod talu iawndal yn unig yn ddigon o sbardun i adwerthwyr gydymffurfio gyda'r SCOP, nac yn adlewyrchu'n ddigonol effaith posibl ymddygiad adwerthwyr ar gyflenwyr. Mae'n ystyried y byddai'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP yn fwy effeithiol pe bai ganddo rymoedd mwy cynhwysfawr i ymchwilio a chosbi adwerthwyr am beidio cydymffurfio gyda'r GSCOP. Mae'r CC felly wedi argymell, yn ogystal â sefydlu'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP, y dylai'r Llywodraeth ystyried rhoi grymoedd ychwanegol i'r corff fedru gosod cosb am dorri'r GSCOP. Ni ddylid cosbi oni bai bod tystiolaeth gref ac argyhoeddiadol, a dylid medru apelio yn erbyn penderfyniadau.

4.3 Er bod dadl gadarn dros osod cosb i atal arfer gwael, dadleuwyd y byddai'r niwed i enw da adwerthwr, o gael ei enwi fel rhywun sy'n trin cyflenwyr yn annheg, hefyd yn gweithredu fel rhwystr.

4.4 Byddai colli cwsmeriaid sydd â theimladau cryf dros drin cyflenwyr yn deg yn medru bod yn fwy niweidiol na chosb yn unig.

4.5 Wedi i'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP wneud penderfyniad, rydym yn rhagweld y bydd proses apêl ar gael. Byddai diddordeb gennym glywed eich barn am ffyrdd o'i sefydlu a'i weithredu.

Cwestiynau

14. Pa mor hanfodol yw'r grym i gosbi i swyddogaeth y corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP?

15. Os yw'n bwysig, sut dylid gosod cosbau?

16. Ar ba lefelau y dylid eu gosod?

17. A oes rhwystrau eraill a fedrai fod yn effeithiol?

18. A fedrai camau eraill gan y corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP i atal torri'r GSCOP fod yn effeithiol?

19. Pwy ddylai wrando ar unrhyw apêl a sut ddylai'r broses weithio?

Pennod 5. Yr argymhellion: Cwmpas y corff

5.1 Dylai'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP fedru cymryd cwynion perthnasol i'r cod oddi wrth yr holl gyflenwyr, ac nid y rhai dan gwmpas y GSCOP yn unig.

5.2 Nododd y CC yn adroddiad Ebrill 2008 y byddai angen i'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP flaenoriaethu adnoddau ei swyddfa, er mwyn canolbwyntio ar yr anghydfodau a chwynion sy'n ymwneud â chyflenwyr heb rym marchnad yn fwy na chyflenwyr cynnyrch brandiau mawr sydd yn rymus yn y farchnad.

5.3 Bydd y corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP wrth ddefnyddio disgresiwn yn ystyried y wybodaeth ganlynol o ran y rhwymedigaethau dan y Cod y mae'n bwriadu ymchwilio iddynt:

(a) cwynion gan Gyflenwyr, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i'r cwynion sy'n arwain at gymodi Anghydfod;

(b) cwynion gan Adwerthwyr o ran arferion Parti (adwerthwyr eraill) wrth ryngweithio gyda'i gyflenwyr;

(c) cwynion gan unrhyw berson arall, i'r graddau y mae'n berthnasol i dorri'r Cod a'r/ neu'r Ymrwymiadau yn unig; ac

(d) unrhyw wybodaeth arall a gafodd y corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP neu'r OFT, boed yn llygad y cyhoedd neu o ganlyniad i rwymedigaethau adroddiadau'r Adwerthwr Dynodedig dan y Gorchymyn neu'r Ymrwymiadau.

5.4 Wrth ymarfer disgresiwn, bydd y corff gweithredu yn ystyried materion y mae'n tybio eu bod yn berthnasol, gan gynnwys y rhai a nodwyd ym mharagraff 5.3, (a) i (d).

5.5 Rhaid i'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP gael graddfa o ddisgresiwn, er enghraifft efallai fod y person a enwyd yn (c) yn codi dadleuon cwbl anhaeddiannol. Rhaid i gwynion o'r fath gael eu hategu gan dystiolaeth ddigonol i fod o ddefnydd i'r corff gweithredu wrth gynnal unrhyw ymchwiliad.

5.6 Mae Adwerthwyr sydd wedi'u cwmpasu gan y GSCOP wedi holi a ddylid cynnwys cyflenwyr mawr yn yr argymhellion. Maent yn credu y gallai cyflenwyr mawr ddefnyddio'r GSCOP a'r corff arfaethedig i annog telerau gwell, gan arwain at brisiau adwerthu uwch. Edrychwyd ar y mater hwn pan gyflwynwyd y SCOP yn y lle cyntaf yn 2002. Y consensws cyffredinol ar y pryd oedd nad oedd yn briodol i'w heithrio, ac y byddai hynny'n gwanhau'r Cod. Byddai hefyd yn anodd penderfynu'n fanwl pa drosiant neu feini prawf eraill a fyddai'n cael eu hystyried.

5.7 Nododd y CC yn adroddiad 2008 y gallai grym prynwr hyd yn oed yr adwerthwyr nwyddau cartref mwyaf gael ei ddisodli gan rym marchnad cyflenwyr, yn arbennig y rhai sy'n cyflenwi'r nwyddau brand mwyaf amlwg.

5.8 Nododd y CC y byddai'n rhaid i unrhyw feini prawf ystyrlon i benderfynu ar rym cyflenwyr gael mynediad at drafodion cyflenwyr mewn cynnyrch penodol, a gydag adwerthwyr nwyddau cartref penodol, a fyddai'n golygu rhwystrau ymarferol sylweddol. Nid yw'r GSCOP yn eithrio cyflenwyr mawr sydd â grym prynwyr, felly gall fod yn anodd cyfiawnhau eu heithrio rhag mynediad at y corff gweithredu a monitro'r GSCOP. Fodd bynnag, disgwylir yn ymarferol i'r corff weithredu disgresiwn wrth benderfynu ar ba feysydd i ymchwilio.

Cwestiynau

20. A ddylai cwynion i'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP fod yn gyfyngedig i'r cyflenwyr uniongyrchol dan y GSCOP?

21. A ddylid eithrio cyflenwyr mawr fel y gall y corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP ganolbwyntio ar gwynion gan rai llai, sy'n fwy bregus yn sgil eu maint?

22. Os ddylid cael trothwy, sut ddylid ei gyfrifo?

23. A oes unrhyw beth arall y dylid ei nodi yn 5.3 uchod, h.y. a oes (e) i baragraff 5.3?

Pennod 6. Yr argymhellion: Ariannu'r corff

6.1 Dylai'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP dderbyn ad-daliad gan yr adwerthwyr nwyddau cartref dynodedig

6.2 Amcangyfrifodd y CC y byddai sefydlu'r GSCOP yn golygu cyfanswm o tua £1 miliwn o gostau cychwynnol i adwerthwyr. Mae'r costau blynyddol sy'n gysylltiedig â chydymffurfiaeth gyda'r GSCOP tua £1.7 miliwn y flwyddyn. Amcangyfrifir mai cost corff gweithredu a all dderbyn cwynion gan yr holl gyflenwyr yw £120,000 i bob adwerthwr. Ledled y deg adwerthwr nwyddau cartref sydd wedi'u cwmpasu gan y GSCOP, mae hyn yn gyfanswm o £1.2 miliwn y flwyddyn. Felly, byddai costau parhaus y GSCOP a'r corff gweithredu tua £3 miliwn y flwyddyn. Nododd y CC y dylid ystyried y costau hyn ar adwerthwyr yng nghyd-destun trosiant adwerthu nwyddau cartref sydd tua £110 biliwn.

6.3 Argymhellodd y CC y dylai'r OFT dalu'r holl gostau corff monitro a gweithredu i ddechrau, ond yna'u hadfer oddi wrth y partïon dynodedig.

6.4 Argymhellir y dylai'r OFT anfonebu bob un o'r Partïon am eu cyfran o'r costau hyd at fwyafswm o'r Gyllideb ar gyfer y chwarter hwnnw, llai unrhyw gostau a adferwyd gan y corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP oddi wrth Adwerthwyr Dynodedig dan Erthygl 11(7) o'r Cod. Bydd cyfran y costau perthnasol i bob Parti yn cael ei osod gan y corff monitro a gweithredu, ac yn cael ei ysgwyddo gan bob Parti yn ôl fformiwla gadarn a osodwyd o flaen llaw.

6.5 Mae'r CC wedi argymell y dylid defnyddio'r fformiwla ganlynol i gyfrifo cyfran bob Parti o gostau'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP:

$$\frac{a(Rp/Ra)+b(Tp/Ta)+c(Ap/Aa)+d(Dp/Da)}{e+f+g+h}$$

a = 4

b = 3

c = 2

d = 1

Rp = Nifer yr Argymhellion a wnaed i'r Parti hwnnw gan yr Ombwdsmon

Ra = Yr holl Argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon

Tp = Trosiant y Parti hwnnw ar gyfer cyflenwad adwerthu nwyddau cartref

Ta = Trosiant bob Parti ar gyfer cyflenwad adwerthu nwyddau cartref

Ap = Nifer o Anghydfodau rhwng y Parti hwnnw a'i Gyflenwyr a adroddwyd yn unol â pharagraff 8.1 y Cynllun

Aa = Holl Anghydfodau rhwng Partïon a Chyflenwyr a adroddwyd yn unol â pharagraff 8.1 y Cynllun

Dp = Nifer o Anghydfodau rhwng y Parti hwnnw a'i Gyflenwyr a adroddwyd yn unol ag Erthygl 10(1) *(c)* o'r Cod

Da = Holl Anghydfodau rhwng Adwerthwyr Dynodedig a Chyflenwyr a adroddwyd yn unol ag Erthygl 10(1) *(c)* o'r Cod

e = 4 oni bai bod *a*(Rp/Ra) yn hafal i 0, felly mae hefyd yn hafal i 0

f = 3 oni bai bod *b*(Tp/Ta) yn hafal i 0, felly mae hefyd yn hafal i 0

g = 2 oni bai bod *c*(Ap/Aa) yn hafal i 0, felly mae hefyd yn hafal i 0

h = 1 oni bai bod *d*(Dp/Da) yn hafal i 0, felly mae hefyd yn hafal i 0

Cwestiynau

24. Ai fformiwla arfaethedig y CC yw'r ffordd fwyaf priodol o gyfrifo cyfran bob parti o gostau'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP?

25. A ddylai cyllid y corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP fod ar sail meini prawf eraill, megis taliad cyfradd unffurf gan bob un o'r adwerthwyr dynodedig, ac os felly, beth?

Pennod 7. Beth yw'r cam nesaf?

7.1 Yn dilyn derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad hwn byddwn yn cyhoeddi ymateb y Llywodraeth erbyn 30 Ebrill. Bydd yn cynnwys crynodeb o'r farn a fynegwyd a rhesymau dros y penderfyniadau terfynol. Bydd unrhyw argymhellion am newid deddfwriaethol yn rhan o ymgynghoriad manylach. Os fydd deddfwriaeth yn datblygu, bydd yn destun Adolygiad Ôl-Weithredol, a fyddai'n cael ei gynnal 3 i 5 mlynedd ar ôl ei weithredu.

Atodiad A : Cod Ymarfer Ymgynghoriadau

1. Dylid cynnal ymgynghoriad ffurfiol pan fo lle i ddylanwadu ar ganlyniad y polisi.
2. Fel rheol dylai ymgynghoriad gymryd 12 wythnos o leiaf, gan ystyried amserlen hwy lle bo'n bosibl ac yn synhwyrol.
3. Dylai dogfennau ymgynghorol fod yn glir am y broses ymgynghorol, yr hyn sy'n cael ei gynnig, ystod y dylanwad a chost a buddiannau'r argymhellion.
4. Dylid cynllunio ymgynghoriad i fod yn hygyrch ac yn targedu'n eglur y bobl hynny y bwriedir i'r ymarferiad eu cyrraedd.
5. Mae'n hanfodol cadw'r baich ymgynghorol cyn lleied â phosib er mwyn i'r ymgynghori fod yn effeithiol, ac i ymgyngoreion gytuno i ymwneud â'r broses.
6. Dylid dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus, a rhoi adborth clir i gyfranogwyr yn dilyn yr ymgynghoriad.
7. Dylai swyddogion sy'n cynnal ymgynghoriadau dderbyn arweiniad ar sut i gynnal ymarferiad ymgynghorol llwyddiannus, a rhannu'r hyn a ddysgwyd o'r profiad.

Mae'r cod cyflawn ar gael ar wefan y Gweithgor Gwell Rheoliadau, http://bre.BIS.gov.uk/regulation/consultation/code/

Atodiad B: Rhestr o Unigolion/Mudiadau a holwyd

ActionAid
Aldi
Andrew George AS
Asda
Association of Convenience Stores
Association of Master Bakers
Bananalink
British and Irish Ombudsman Association
Breaking the Armlock Alliance
British Brands Group
Siambrau Masnach Prydain
British Independent Fruit Growers Association
Consortiwm Manwerthu Prydain
Swyddfa'r Cabinet
Campaign to Protect Rural England
Eglwys Lloegr
Comisiwn Cystadleuaeth
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain
Llais Defnyddwyr
Co-operative Group Ltd
Country Land and Business Association
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Adran yr Amgylchedd, Gogledd Iwerddon
Yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol
Divine Chocolate
Ymddiriedolaeth Masnach Deg
Ffederasiwn Busnesau Bychain
Ffederasiwn Bwyd a Diod
Cyfeillion y Ddaear
Grassroots Action on Food and Farming
Iceland
Lidl
Marks and Spencer
Michael Hutchings
Morrisons
Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr
Swyddfa Masnachu Teg
Rural Shops Alliance
Sainsbury's
Llywodraeth yr Alban
Somerfield
Tesco
Cyngres Undebau Llafur
Traidcraft
Adran y Trysorlys
Waitrose
War on Want
Llywodraeth Cynulliad Cymru

Atodiad C: Cysylltiadau perthnasol

1) Cod ymarfer ar ymwneud archfarchnadoedd gyda chyflenwyr (SCOP)

http://www.oft.gov.uk/shared_oft/monopolies/supermarkets2.pdf

2) Swyddfa Masnachu Teg, Archfarchnadoedd: Y cod ymarfer a materion eraill yn ymwneud â chystadleuaeth: Mawrth 2005

http://www.oft.gov.uk/shared_oft/reports/comp_policy/oft783.pdf

3) Datganiad i'r Wasg: OFT to refer grocery market to Competition Commission 84/06: 9 Mai 2006

http://www.oft.gov.uk/news/press/2006/84-06

4) Y farchnad nwyddau cartref: Rhesymau'r OFT dros gyfeirio at y Comisiwn Cystadleuaeth OFT845: Mai 2006

http://www.oft.gov.uk/shared_oft/reports/comp_policy/oft845.pdf

5) Adroddiad terfynol y CC ar gyflenwad nwyddau cartref yn y DU: 30 Ebrill 2008

http://www.competition-commission.org.uk/rep_pub/reports/2008/fulltext/538.pdf

6) Ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad terfynol; 29 Gorffennaf 2008

http://www.berr.gov.uk/files/file47089.pdf

7) Datganiad i'r Wasg 36/09: *CC Publishes Code of Practice and Ombudsman Recommendation*: 4 Awst 2009

http://www.competition-commission.gov.uk/press_rel/2009/aug/pdf/36-09.pdf

8) Cod ymarfer diwygiedig cyflenwad nwyddau cartref (GSCOP): Awst 2009

http://www.competition-commission.org.uk/inquiries/ref2006/grocery/pdf/revised_gscop_order.pdf

9) Ymrwymiadau arfaethedig y CC i sefydlu Cynllun Ombwdsmon GSCOP

http://www.competition-commission.org.uk/inquiries/ref2006/grocery/pdf/ombudsman_undertakings.pdf

10) Swyddogaeth yr OFT wrth weithredu Gorchymyn GSCOP
http://www.oft.gov.uk/shared_oft/monopolies/GSCOP-OFT-advice.pdf

11) Datganiad i'r Wasg BIS – *Government Announces Go-Ahead for Supermarket Enforcer*: 13 Ionawr 2010

http://nds.coi.gov.uk/content/detail.aspx?NewsAreaId=2&ReleaseID=410284&SubjectId=2

12) Tudalen marchnad nwyddau cartref y CC

http://www.competition-commission.org.uk/inquiries/ref2006/grocery/index.htm